carwch eich caerdydd

# Cystadleuaeth Poster

## Mae Ymgyrch Sothach Sbwriel wedi dychwelyd gyda chystadleuaeth gyffrous a gwobrau gwych i'w hennill!

Hoffem ni i chi ddangos i bobl Caerdydd eich bod yn Caru Eich Cartref trwy ddylunio posteri a gaiff eu dangos ar finiau sbwriel a chylchfannau ledled Caerdydd. Dychmygwch weld eich gwaith celf ar ddangos ledled y ddinas!

Mae tair gwobr ar gyfer tri phlentyn buddugol – a thri chategori i ddewis o'u plith:

1. **Peidiwch â thaflu sbwriel wrth deithio mewn car**
2. **Glanhewch faw eich ci wrth ei gerdded**
3. **Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw a chwarae**

Hoffem ni adael i chi ddefnyddio eich dychymyg ond efallai gallwch dynnu llun o sbwriel yn cael ei daflu o gar sy'n gwneud i'r bobl sy'n byw'n agos yn drist iawn.
Neu gallech ddangos gêm pêl-droed yn cael ei stopio gan fod baw cŵn yn y ffordd – ych â fi!
Neu gallech chi lunio poster yn dangos Caerdydd ar ei gorau; amgylchedd glân a dymunol lle mwy pobl yn hoffi byw.

## Gwobrau

**Gwobr 1**
4 Taleb Rafftio i'r Teulu*

**Gwobr 2**
4 Taleb Ton Dan Do*

**Gwobr 3**
4 Taleb Antur Awyr*

* Yn ddilys ar gyfer 2 oedolyn a 2 blentyn. Mae telerau ac amodau yn berthnasol.

www.ciww.com

Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd
Cardiff International White Water

## Sut i Gymryd Rhan

Dyluniwch eich posteri ar ddarn o bapur A4 neu A3
Y dyddiad cau yw 7 Ebrill 2017 (diwedd tymor) a chaiff yr enillwyr eu cyhoeddi yn nhymor yr haf ar ôl gwyliau'r Pasg.

Gallwch anfon posteri i **tîmstrategaethgwastraff@caerdydd.gov.uk** neu drwy'r post i **Ymgyrch Sothach Sbwriel, Tîm Strategaeth, Depo Ffordd Lamby, Tredelerch, CF3 2HP**

carwch eich caerdydd

HELPU CAERDYDD I GYNHYRCHU LLAI O WASTRAFF
THE REALLY RUBBISH CAMPAIGN
HELPING CARDIFF TO MAKE LESS WASTE